

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Rheolwr Llwybr

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth




MARK MCNAMARA
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd aChanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Rheolwr Llwybr

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.  Rydym yn chwilio am **Rheolwr Llwybr** i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** PS4 (SCP 35-37) £43,421 - £45,441

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **DreNewydd**

**Dyddiad cau:** 11/07/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Rydym yn chwilio am reolwr i gefnogi Rheolwr Rhanbarthol Canolbarth Cymru ACGChC ac i ymgymryd â rheolaeth weithredol a chynnal a chadw'r rhwydwaith cefnffyrdd sengl yn ardal Gogledd Powys yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

Cyflawni gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru a chynnal Rhwydwaith diogel ac effeithlon ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae angen y rôl i gynorthwyo i reoli darpariaeth trwy Ddarparwyr Gwasanaeth Awdurdodau Lleol yn ogystal ag Ymgynghorwyr a Chontractwyr.

Byddwch yn cynorthwyo i reoli Ymatebion Argyfwng, Cynnal a Chadw Rheolaidd a Chynnal a Chadw Cyfalaf o fewn Rhanbarth Canolbarth Cymru, gan reoli 2 Reolwr Llwybr Cynorthwyol.

Mae'r rôl yn cynnwys cymryd rhan mewn gwasanaeth y tu allan i oriau.



# Cyfrifoldebau

**Rheoli Rhwydwaith**

Rheoli'n uniongyrchol pob agwedd o gynnal a chadw'r WGTRMM ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd perthnasol gan gynnwys:

- Swyddogaethau cynnal a chadw cylchol arferol (gwaith wedi'i raglennu)
- Gweithgarwch cynnal a chadw adweithiol a brys
- Ail-wynebu ac adnewyddiadau eraill.

Arwain ar gydlynu rheolaeth traffig y rhwydwaith, gan gynnwys blaenoriaeth arwynebedd y ffordd, gydag Unedau a Thimau eraill yr ACGCC, Darparwyr Gwasanaeth, Ymgynghorwyr Fframwaith, Cyfleustodau a Datblygwyr. Cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad cynlluniau gwella cefnffyrdd, gan gynnwys prosiectau dan y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Cynorthwyo Llywodraeth Cymru i asesu'r gofynion am gynnal a chadw yn seiliedig ar wybodaeth a gesglir o archwiliadau technegol ac archwiliadau eraill i ystyried a gwerthuso'r opsiynau gwaith, a datblygu rhaglenni gwaith blynyddol a flaenoriaethwyd.

Cysylltu a chydweithredu â Pheiriannydd Traffig ACGCC, neu eraill, wrth ymchwilio i faterion yn ymwneud â thraffig, gan fynychu archwiliadau diogelwch ffyrdd a datblygu cynlluniau a chynigion.

Cysylltu a chydweithredu â thimoedd Amgylcheddol, Strwythurau a Thechnegol ACGCC i ddatblygu a gweithredu gofynion WGTRMM.

Cynorthwyo Llywodraeth Cymru ac Uned Fusnes ACGCC i ymchwilio ac ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

**Rheolaeth Weithredol**

Rheoli darpariaeth a pherfformiad Darparwyr Gwasanaeth ACGCC er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth diogel, effeithiol, effeithlon a chyson gan y rhwydwaith cefnffyrdd ffyrdd sengl neu ddeuol yn unol â'r gofynion.

Cysylltu â Thîm Gweithredol ACGCC (e.e. mewn perthynas â rhyddhau Unedau Swyddogion Traffig) o ran cynnal a chadw ac ymateb i ddigwyddiadau.

Ymgymryd â rôl Rheolwr (Tactegol) Arian yr Asiantaeth wrth reoli digwyddiadau a digwyddiadau o argyfwng. Cydlynu a dosbarthu adnoddau ar draws yr Asiantaeth mewn ymateb i ddigwyddiadau critigol a digwyddiadau mawr a chysylltu â Thîm Gweithredol ACGCC, y Gwasanaethau Brys a bod yn rhan o brosesau ôl-gyfarfod mewnol ACGCC ac Amlasiantaethol.

**Rheoli Datblygu, Hawliadau Trydydd Parti a Materion Tir**

Cynorthwyo swyddog(ion) arweiniol ACGCC mewn perthynas â Rheoli Datblygu, Hawliadau Trydydd Parti a Materion Tir a bod yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth weithredol a chyngor technegol.

**Rôl Rheoli Risgiau**

Cynorthwyo Dylunwyr, Prif Ddylunwyr, Contractwyr a Phrif Gontractwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Reoliadau CDM.

**Rheoli Staff**

Goruchwylio a rhoi arweiniad ar waith a wneir gan staff yr ydych yn eu rheoli.




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

Gallu gweithio mewn amgylchedd tîm.
Parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hun o fewn paramedrau diffiniedig.
Medru ysgogi ei hun yn dda ac yn ymroddedig iawn.
Sgiliau rhyngbersonol wedi'u datblygu'n dda.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Gradd neu gyfwerth mewn Peirianneg Sifil neu bwnc perthnasol, neu HNC ynghyd â phrofiad perthnasol sylweddol.

## Profiad perthnasol

Profiad sylweddol o reoli prosiectau a chyllidebau.
Gweinyddu prosesau caffael a rheoli contractau adeiladu.
Rheoli gweithgarwch cynnal a chadw priffyrdd.
Ystod eang o brofiad o gynnal a chadw priffyrdd ac/neu ddylunio priffyrdd.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Gallu trefnu blaenoriaethau gwaith, cynllunio ymlaen llaw a chyflwyno rhaglenni gwaith.
Sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno da.
Gallu addasu i ystod eang o faterion gweithredol.
Sgiliau TG da.
Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch o ran Rheoliadau CDM.
Trwydded yrru ddilys gyfredol.

## Gofynion ieithyddol

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan [Cronfa Bensiwn Gwynedd](#).

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.